**Atodiad 2**

## Adroddiad Samplo Safonau Bwyd Blynyddol (2013/2014)

### Samplau Archwiliadau

Aethpwyd ag un sampl bwyd fel rhan o ymweliadau bwyd arferol. Y canlyniad oedd newid labelu cynnyrch Olew Had Rêp Tra Choeth yn y Blodyn Aur.

Ystyrir mai'r arfer gorau fyddai cymryd samplau bwyd o BOB Gweithredwr Busnes Bwyd risg uchel fel rhan o archwiliadau arferol i safonau bwyd ac mae hynny'n argymhelliad ar gyfer 2014-2015.

### Samplau Gwasanaeth a Chwynion

Aethpwyd â 2 sampl a oedd yn deillio o gwynion a dderbyniodd y Gwasanaeth Safonau Bwyd;

- roedd un yn golygu cynnal archwiliad mewnol gan nad oedd digon o dystiolaeth yn bodoli i'w ddadansoddi, ac,
- roedd un yn deillio o ddod o hyd i aren mewn pryd KFC, gan arwain at atgyfeiriad at Fwrdd Iechyd Addysgu Powys ynglŷn â masnachfraint Gastronomy Food UK Ltd.

### Samplau Cyngor a Hyfforddiant

Ni aethpwyd ag unrhyw samplau at ddibenion hyfforddiant ffurfiol gan fod prosiectau samplu yn cael eu defnyddio at y diben hwn.

### Samplau Ymchwilio

Cymerwyd a chyflwynwyd sampl er na chafodd ei dadansoddi pan dderbyniwyd (adroddiad Cudd-wybodaeth) 5x5x5 oddi wrth yr Uned Twyll Bwyd ynghylch amnewid pupur tsili yn erbyn paciwr bwyd risg uchel. Ni fyddai'r dadansoddiad wedi gallu canfod y math o tsili. Gyda datblygiadau mewn technegau isotop, efallai y bydd y labordy [Eurofins] yn y dyfodol yn gallu canfod twyll amnewid posibl.

### Prosiectau Samplu (a ariennir gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd)

### Porthiant - Halogyddion

Pasiodd 5 o 5 grawnfwyd o ffermydd yn Sir Ddinbych wrth brofi am mycotocsinau

### Bwyd: Cyfansoddiad

- Methodd 2 o 10 cynnyrch cig wrth brofi cyfansoddiad cig yn yr arolwg Caffael:
  - un ar % gynnwys cig, ac,
  - un am amnewid rhywogaeth.
- Methodd 1 o 3 o'r rhywogaethau cig oen am eu bod yn gig rhywogaeth arall [cyw iâr mewn cebab]
- Pasiodd 3 o 3 o'r rhywogaethau cig eidion wrth brofi am gig o rywogaeth arall
- Methodd un cyflenwr cig o Sir Ddinbych yn yr arolwg gyda sampl o'r tu allan i'r sir

**Amnewid:**

- Methodd 2 o 5 o’r cynhyrchion caws am amnewid caws yn yr arolwg
- Pasiodd 5 o 5 o’r samplau pysgod wrth brofi am amnewid posibl am gynnyrch rhatach

**Halogiad:**

- Methodd 1 o 3 o samplau bwytai oherwydd alergenau cnau. Arweiniodd un o'r methiannau hyn at ymchwiliad ac mae’r camau priodol i’w cymryd o dan ystyriaeth (Ebrill 2014).
- Pasiodd 3 o 3 o'r cynnyrch ceirch wrth brofi am halogiad mall rhyg.

**Amnewid eraill (heb ei ariannu gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd)**

- Pasiodd 39 o 39 o’r sgriniadau ffon wrth brofi amnewid gwirodydd am frandiau ffug rhatach